2.02JT21

**LC211**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Cynllun Grant Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer grantiau tuag at gost benthyciadau mewn cysylltiad â sefydlu neu hybu busnesau fferm sy'n atodol i gynhyrchu moch ac yn ymwneud ag ailstrwythuro busnes cynhyrchu moch.

Mae'r Cynllun yn dilyn yn agos fformat cynllun sydd wedi'i wneud ar gyfer Lloegr yn OS 2001 Rhif 252 sydd hefyd yn dod i rym ar 1 Mawrth 2001. Er hynny, mae'r Cynllun Cymreig yn ehangach nag un Lloegr, am ei fod yn cynnwys benthyciadau sy'n gyfystyr â gwariant o natur cyfalaf. Deellir bod Cynllun arall yn cael ei baratoi yn Lloegr a fydd yn ymdrin â'r elfen gyfalaf.

Cafodd y gynllun ei wneud o dan y Weithdrefn Weithredol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Cynllun hwn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i godi nifer o bwyntiau sydd wedi'u cymryd i ystyriaeth bellach yn y fersiwn derfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

27 Mawrth 2001